



Llythyr Cyntaf Pedr

Yn aml gelwir Llythyr Cyntaf Pedr yn llyfr mwyaf gobeithiol y Testament Newydd. Y thema sy'n rhedeg drwy'r llyfr yw'r thema o sut gellir byw ar seiliau cadarn mewn amgylchedd gelyniaethus. Yr ateb a roddir yw trwy rym yr efengyl - bywyd newydd a hunaniaeth newydd yng Nghrist - sy'n cynnig y seiliau cadarnaf a fydd yn cynorthwyo pobl i wrthsefyll pwysau mawr. Mae hefyd yn cynnig gweledigaeth o sut i fyw'r math o fywyd y gallai'r rhai o'u cwmpas - wrth barhau â'u gelyniaeth - gael gweledigaeth o bwy yw Duw.



Pa mor hir wnaiff o gymryd?

Amser darllen: 16 munud
Yn brin o amser? Darllenwch yn unig
 1.1-13; 2.1-12; 3.1-9



Dosbarth

Llythyr



Unrhyw beth anodd?

Nid yw'r adran 1.3-13 yn gymhleth ond mae'r ddiwinyddiaeth yn ddofn a dwys (mewn un frawddeg) – mae'n gofyn gryn dipyn i'w dirnad!

Bydd rhai hefyd yn credu fod y gorchymyn ym mhennod 3 i wragedd ufuddhau i'w gwŷr yn heriol.



Dyfyniadau i ysbrydoli

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni o'r newydd i obaith bywiol drwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.

(1 Pedr 1.3)

Onid yr ydych chi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun, i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef. A chi gynt heb fod yn bobl, yr ydych chi awr yn bobl Dduw; a chi gynt heb dderbyn trugaredd, yr ydych chi awr yn rhai a dderbyniodd drugaredd."

(1 Pedr 2.9-10)

Peidiwch â'u hofni hwy, a pheidiwch â chymryd eich tarfu, ond sancteiddiwch Grist yn Arglwydd yn eich calonnau. Byddwch yn barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn ceisio gennych gyfrif am y gobaith sydd ynoch. Ond gwnewch hynny gydag addfwynder a pharchedig ofn.

(1 Pedr 3.14b-16a)



Ynglŷn â'r Awdur

Dywed Llythyr Cyntaf Pedr 1.1 mai awdur y llythyr oedd Pedr apostol Iesu Grist, ac ystyriwyd fod hyn yn golygu "y Pedr" - Pedr yr Efengylau.

Mae llawer o ysgolheigion, fodd bynnag, sy'n gwrthod credu mai'r awdur oedd Pedr. Mae rhai'n seilio eu dadl ar y ffaith fod yr awdur yn hyddysg mewn athroniaeth a rhethreg Groeg (ac ni allai Pedr fod yn hyddysg ynddynt). Mae eraill yn dadlau fod yr erlid y cyfeirir ato yn y llythyr fwy na thebyg o ddyddiad diweddarach (efallai mor hwyr ag 80au -90au OC). Mae eraill wedyn yn dadlau fod Llythyr Cyntaf Pedr yn rhannu llawer o themâu'r Effesiaid ac felly efallai ei fod wedi ei ysgrifennu ar ôl y llythyr hwnnw (ac felly wedi i Pedr gael ei ferthyr yn Rhufain).

Mae ysgolheigion eraill heb eu hargyhoeddi gan y dadleuon hyn ac yn parhau i'w briodoli i Pedr.

Beth wyddom ni amdano?

Pedr yw'r mwyaf adnabyddus o 12 disgybl gwreiddiol Iesu. Er nad yw'r efengylau eraill yn dweud dim am ei dras na man ei eni, mae Efengyl Ioan yn ei adnabod fel mab Ioan a'i fod yn hanu o Fethsaida (Ioan 1. 40-44). Erbyn iddo gyfarfod Iesu yn Efengyl Marc mae'n ymddangos ei fod yn byw yng Nghapernaum - o leiaf roedd ei fam yng nghyfraith yn byw yno (Marc 1.30). Roedd ganddo frawd o'r enw Andreas (Matthew 4.18 ac Ioan 1.40, 44). Mae'r efengylau i gyd yn nodi fod Pedr yn bysgotwr (felly dyma sail y dybiaeth na fyddai wedi ei hyfforddi mewn athroniaeth a rhethreg Groeg).

Portreadir Pedr yn y pedair efengyl fel un oedd yn agos iawn at Iesu - er ei fod yn aml yn gwneud camgymeriadau, tuedd yn y diwedd a'i harweiniodd at wadu Iesu Grist dair gwaith cyn ei brawf. Mae traddodiad Cristnogol yn mynnu mai Pedr oedd Esgob cyntaf Rhufain a'i fod wedi ei groeshoelio yno yn ystod teyrnasiad yr Ymheroddr Nero (yng nghanol 60au OC). Mae rhai'n credu mai tystiolaeth Pedr fel llygad dyst o fywyd a marwolaeth Iesu yw Efengyl Marc. Os nad ysgrifennwyd y llythyr gan Pedr yna wyddom ni ddim byd o gwbl am yr awdur.



Sut cafodd ei strwythuro?

1.1-2	Cyfarchiad
1.3-12	Clod am yr hyn wnaeth Duw yn Iesu
1.13-2.3	Bod yn bobl sanctaidd Duw
2.4-10	Iesu'r Gonglfaen
2.11-4.11	Sut i fyw yn ffyddlon mewn amgylchedd gelyniaethus
4.12-5.11	Geiriau o anogaeth a gobaith
5.12-14	Cyfarchion terfynol



Ynglŷn â'r cyfnod

Os mai llythyr gan Pedr yw hwn byddai angen iddo fod wedi ei ysgrifennu cyn ei farwolaeth yng nghanol 60au OC (felly rhywbryd yn niwedd y 50au i'r 60au cynnar OC). Os nad, efallai fod y llythyr wedi ei ysgrifennu mor ddiweddar â'r 80au neu 90au OC)

Beth oedd pobl yn ei deimlo?

Mae cynulleidfau'r llythyr yn glir. Adwaenir y rhai sy'n derbyn y llythyr yn 1.1 fel 'dieithriaid sydd ar wasgar yn Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia.' Y Gwasgariad (neu'r diaspora) yw'r enw a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio gwasgaru'r Iddewon dros y byd gwybyddus wedi'r gaethglud ond mae rhan fwyaf o ysgolheigion yn credu mai derbynwyr y llythyr oedd Cenedl ddynion. Mewn geiriau eraill roedd Pedr yn cymharu profiad ei gynulleidfa o Gristnogion i brofiad yr Iddewon. Wrth i ni ddarllen ymlaen gwelwn fod Cristnogion yn brwydro i oroesi mewn cyd-destun gelyniaethus, yn ceisio byw eu ffydd ymhlith rhai oedd yn eu casáu. Crëwyd y gyfatebiaeth i'w calonogi i ddal ymlaen drwy'r caledi.



Pa fath o Lyfr ydy o?

Epistol neu llythyr – mae Llythyr Cyntaf Pedr yn darllen mwy fel pregeth na llythyr; fe'i cynlluniwyd i galonogi ac i fod yn ddyrchafol.



Cadwch lygad am...

Gellir canfod thema dioddef ac erlid drwy'r llyfr cyfan, chwiliwch amdano wrth i chi ddarllen a gofyn pa neges mae Pedr yn ceisio ei chyflwyno i bobl sy'n brwydro mewn amgylchedd gelyniaethus.

Ochr yn ochr â dioddef mae thema 'gobaith'. Beth ydych chi'n gredu mae'r gair 'gobaith' yn ei olygu i Pedr? Ydyn ni'n ei ddefnyddio yn yr un ffordd heddiw?

Thema gref arall yn y llyfr yw perthynas – gyda Christ a gyda'n gilydd – sylwch arno a gofynnwch i'ch hunan beth allwn ni ddysgu heddiw oddi wrth y neges



Beth allai hyn ei olygu i mi?

Ar fwy nag un achlysur mae Llythyr Cyntaf Pedr yn sôn am ymddwyn yn 'anrhydeddus'. Mewn geiriau eraill mae'r dull o fyw yn rhan hanfodol o fodolaeth Cristnogol. Sut beth ydych chi'n credu y dylai bywyd Cristnogol anrhydeddus fod?



Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Mae gobaith yn bwysig yr holl ffordd drwy'r llyfr. Beth ydych chi, gyda'ch gilydd, yn gredu mae Pedr yn ei olygu wrth gobaith? Sut mae'n helpu pobl yng nghanol eu dioddef? Oes 'na unrhyw beth y gallwn ni ei ddysgu heddiw am obaith yn ein bywyd?
- Mae Pedr yn siarad yn y llyfr am fyw'n ffyddlon mewn byd gelyniaethus - tra'n cydnabod bod eraill yn byw mewn byd llawer mwy gelyniaethus na ni – a oes unrhyw beth y gwnaethoch chi ei ddysgu all ein helpu ni i fyw yn fwy ffyddlon mewn cymdeithas sy'n ein hystyried, ar y gorau, yn wallgof ac ar ein gwaetha'n llawer gwaeth na hynny?
- Trafodwch 1 Pedr 3.1-4. Mae'n ddadleuol felly bwrw iddi. Pam ydych chi'n credu ei fod yn dweud yr hyn mae'n ei ddweud? Ydych chi'n cytuno? Anghytuno? Oes 'na rhywbeth ynddo sydd o gymorth?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

Dod â'r Beibl yn **fyw**

B Cymdeithas
y Beibl